## Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

## Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru
## Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

## Cyf: SEWSCB 1/2022

## Disgrifiad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

**Cyd-destun Cyfreithiol**

Comisiynwyd adolygiad estynedig gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru, ar argymhelliad y Cyd-grŵp Adolygu Achosion, yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol. Roedd hyn yn unol â 'Cydweithredu i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2, Adolygiadau Ymarfer Plant, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn dilyn marwolaeth plentyn 9 oed, a elwir Plentyn E o hyn allan.

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig mewn unrhyw un o'r achosion canlynol lle, yn ardal y Bwrdd, y gwyddys neu yr amheuir bod camdriniaeth neu esgeulustod o'r plentyn, ac mae'r plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad; **ac**

roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plentyn a/neu'n blentyn oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys person 18 oed a oedd yn derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn) –

- dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod; neu
- y dyddiad pan fydd awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a datblygiad.

**Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried amgylchiadau plentyn gwryw a fu farw gwaetha'r modd yn 9 blwydd ac 11 mis oed.

Cafodd Plentyn E ei eni ym mis Tachwedd 2011. Cyn ei enedigaeth, mynegodd y fydwraig bryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig y rhieni. Oherwydd digwyddiad rhwng y rhieni ar ôl genedigaeth Plentyn E, ac er mwyn ei ddiogelu, cytunwyd y byddai Plentyn E a'i fam yn byw gyda'i fam-gu ar ochr ei fam. Fodd

bynnag, dirywiodd y sefyllfa'n weddol gyflym a gadawodd y fam gartref y teulu. Yn 2013, rhoddwyd Gorchymyn Preswyliad gan y Llys, gan roi i'r fam-gu ar ochr ei fam gyfrifoldeb rhieni cyfartal a'r pŵer i benderfynu ble'r oedd Plentyn E yn byw.

Mynegwyd pryderon am ymddygiad Plentyn E mor gynnar â 2015 pan ddechreuodd yn yr ysgol feithrin wedi troi'n 3 oed; cafodd ei ddisgrifio fel plentyn swnllyd a oedd yn defnyddio iaith anweddus ac yn cael trafferth i ddilyn rheolau a chanolbwyntio ar dasgau. O fewn dwy flynedd o roi'r Gorchymyn Preswyliad, cafwyd dau atgyfeiriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol; un ynghylch camddefnyddio sylweddau gan y fam, a beichiogrwydd posibl, ac un arall ynghylch y fam-gu yn cyrraedd yn hwyr i gasglu Plentyn E o'r ysgol, ac amheuon ei bod hi'n feddw.

Yn 2017, yn dilyn sawl gwaharddiad o'r ysgol oherwydd ymddygiad ymosodol llafar a chorfforol tuag at staff a disgyblion, ac ymddygiad aflonyddol, cafodd Plentyn E ei gyd-gofrestru yn ei ysgol brif-ffrwd ac mewn ysgol i blant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Rhwng 2017 a mis Mai 2021, cefnogwyd Plentyn E a'i deulu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Gynllun Gofal a Chymorth. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd nifer o atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bennaf o'r adran Addysg, ynghylch ymddygiad ymosodol, iaith amhriodol ac ymddygiad rhywiol amhriodol Plentyn E, honiadau o gamdriniaeth gan aelodau'r teulu a phryderon bod Plentyn E tu hwnt i reolaeth ei rieni.
Ar 24 Mai 2021, rhoddwyd enw Plentyn E ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dan gategorïau esgeulustod (cynradd) a cham-drin corfforol (eilaidd). Argymhellodd y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol y dylid symud y mater ymlaen at gyfarfod trothwy cyfreithiol.

Cynhaliwyd cyfarfod trothwy cyfreithiol ar 21 Mehefin 2021. Daeth y cyfarfod i'r casgliad y dylid rhoi amser i'r offer newydd a nodwyd yn y cynllun Amddiffyn Plentyn weithio, gan mai hwn oedd y cyfnod cyntaf o gofrestru.

Yng nghyfarfod y Grŵp Craidd ym mis Hydref 2021, cytunodd yr holl weithwyr proffesiynol y dylid cynnal cyfarfod 'Beth sy'n Bwysig' arall oherwydd pryderon am y diffyg cynnydd a wnaed. Cynhaliwyd y cyfarfod 'Beth sy'n Bwysig' ar 2 Tachwedd. Yn y cyfarfod, cytunwyd y dylai'r mater symud ymlaen at gyfarfod trothwy cyfreithiol.

Ar 7 Tachwedd 2021, daethpwyd o hyd i Blentyn E wedi'i grogi yng nghartref y teulu, gyda sgarff o amgylch ei wddf. Nid oedd yn ymateb. Cafodd ei gludo i'r ysbyty, ond gwaetha'r modd, bu farw ar 10 Tachwedd 2021.

**Y cyfnod amser a adolygwyd**

Cytunwyd i adolygu'r cyfnod o 1 Tachwedd 2020 i 31 Rhagfyr 2021 er mwyn cynnwys prosesau Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDIC) a'r Grŵp Ymateb Uniongyrchol yn dilyn marwolaeth Plentyn E.

## Dysgu am ymarfer a gweithdrefnau

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, rydym yn ddiolchgar i'r asiantaethau am y cronolegau a gyflwynwyd ac am y wybodaeth ac amser a roddwyd gan aelodau'r teulu. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r gweithwyr proffesiynol a fynychodd y digwyddiad dysgu.

Nodwyd pum thema trosfwaol sydd wedi llywio pwyntiau dysgu'r adolygiad hwn.

- Cydgysylltu asesiadau a chynlluniau
- Gor-optimistiaeth yng ngallu'r fam-gu i reoli a sicrhau newid
- Deall profiad byw Plentyn E
- Gwahaniaethau proffesiynol
- Systemau a phrosesau

Mae angen i unrhyw adolygiad a gwblhawyd sy'n ystyried systemau ac ymarfer ar ôl mis Mawrth 2020 ystyried a gafodd y pandemig Covid-19 unrhyw effaith. Rydym felly wedi ceisio deall, cymaint ag y bo'n bosibl, a oedd amgylchiadau'r argyfwng byd-eang hwn wedi effeithio ar Blentyn E, ei deulu, ac ymateb y gweithwyr proffesiynol i'r hyn oedd yn digwydd yn eu bywydau.

**Thema 1 – Cydgysylltu asesiadau a chynlluniau'n ganolog**

Cyn i'w enw gael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Mai 2021, cefnogwyd Plentyn E a'i deulu trwy Gynllun Gofal a Chymorth am bedair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd pryderon cynyddol am ymddygiad Plentyn E.

Nododd aelodau'r panel adolygu ac ymarferwyr yn y Digwydd Dysgu, er bod cyfathrebu'n digwydd yn rheolaidd rhwng y gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda Phlentyn E a'i deulu, roedd diffyg cydgysylltu yn yr asesiadau a chynlluniau yn y cyfnod cyn rhoi enw Plentyn E ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**Pwynt dysgu**:
Roedd absenoldeb cynllun cynhwysfawr a chydgysylltiedig yn ei gwneud yn anodd asesu a oedd unrhyw gynnydd yn cael ei wneud.

**Thema 2 – Gor-optimistiaeth yng ngallu'r fam-gu i reoli a sicrhau newid**

Roedd y teulu'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ers nifer o flynyddoedd. Roedd mam Plentyn E yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol pan oedd yn blentyn, gyda'r pryderon ynghylch Plentyn E yn adlewyrchu'r pryderon a oedd yn amlwg yn ystod plentyndod ei fam. Pan gafodd mam Plentyn E blentyn arall, cafodd y fam-gu ei hasesu a phenderfynwyd nad oedd yn gallu darparu gofal hirdymor i'r plentyn, felly cafodd ei fabwysiadu.

**Pwynt dysgu:**
Ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i arwyddocâd hanes y teulu cyn i Gadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ei godi ym mis Mai 2021, am fod ganddo brofiad blaenorol o'r teulu.

Er i fam Plentyn E adael cartref y teulu yn 2012, roedd yn parhau i gael dylanwad sylweddol yn ei fywyd a dros ddulliau rhianta'r fam-gu. Er hynny, rhoddwyd y cyfrifoldeb o reoli a goruchwylio cyswllt Plentyn E â'i fam i'r fam-gu, a dibynnwyd arni'n helaeth i sicrhau newid, heb lawer o ystyriaeth a oedd ganddi'r sgiliau a'r gallu i ymateb yn briodol.

Roedd y fam-gu'n dioddef o iechyd gwael yn gorfforol ac roedd yn y grŵp 'agored i niwed yn glinigol' yn ystod camau cynnar y pandemig Covid-19. Roedd ysgolion ar gau am gyfnod sylweddol yn ystod y pandemig, gyda'r disgwyl i rieni/gofalwyr addysgu eu plant gartref. Er bod Hybiau ar agor i blant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol, ni ystyriwyd Plentyn E yn gymwys i dderbyn y ddarpariaeth hon a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

**Pwynt dysgu:**
Yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud a'r cyfnodau canlynol tebyg, gellid fod wedi defnyddio disgresiwn a rhoi lle yn yr Hyb i Blentyn E, gan roi seibiant i'r fam-gu a sicrhau bod Plentyn E yn cael ei weld yn rheolaidd gan weithwyr proffesiynol.

Ym mis Chwefror 2021, cafodd y fam-gu brofedigaeth oherwydd marwolaeth aelod agos o'r teulu. Er y gofynnwyd iddi a oedd angen cymorth arni yn ystod y cyfnod hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth yr ystyriwyd effaith y brofedigaeth ar allu'r fam-gu i rianta Plentyn E.

## <u>Thema 3 – Deall profiad byw Plentyn E</u>

Mae amddiffyn plant yn seiliedig ar yr angen i ddeall yn llawn sut beth yw bywyd i blentyn. Gall plant sy'n dioddef cam-driniaeth ac esgeulustod fod yn dawedog neu'n methu siarad am eu profiadau. Mae angen i ymarferwyr glywed yn weithredol yr hyn sydd gan y plentyn i'w ddweud neu ei gyfathrebu, arsylwi ar ei ymddygiad mewn cyd-destunau gwahanol a chlywed yr hyn mae aelodau o'r teulu/oedolion/gofalwyr arwyddocaol a gweithwyr proffesiynol wedi ei ddweud am y plentyn. Mae angen y sgiliau ac arbenigedd iawn ar ymarferwyr i ddatblygu perthynas ymddiriedus gyda'r plentyn, gofyn y cwestiynau iawn ac i fyfyrio'n feirniadol am yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud neu yn ei fynegi trwy ei eiriau, gweithredoedd neu ymddygiadau. Mae ymarfer effeithiol hefyd yn galw am ddealltwriaeth o'r effaith y gall hanes y rhai sy'n rhan o fywyd y plentyn ei chael ar brofiadau'r plentyn.

Bu farw tad Plentyn E yn 2019. Darparwyd Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) ar gyfer Plentyn E gan yr ysgol, yn ogystal â chynnig i'w atgyfeirio am gwnsela profedigaeth. Ni ddefnyddiodd Plentyn E y cymorth hwn ac ni ddymunai fanteisio ar y cynnig o gwnsela profedigaeth. Ni aethpwyd yn ôl at hyn er i Blentyn E sôn yn aml am arwyddocâd marwolaeth ei dad.

**Pwynt dysgu**
Lle gwrthodir gwasanaethau cymorth ond nad eir i'r afael ag anghenion, dylid ailgynnig cymorth yn rheolaidd.

Ym mis Hydref 2021, aethpwyd â mam Plentyn E i'r ysbyty dwywaith ar ôl iddi geisio gwneud amdani ei hun. O ganlyniad, gohiriwyd y cyswllt rhwng Plentyn E a'i fam.

**Pwynt dysgu:**
Dylai'r effaith a gafodd anfon ei fam i'r ysbyty ar Blentyn E fod wedi cael ei hystyried yn gynt, yn enwedig o gofio'r golled yr oedd wedi'i phrofi eisoes.

**Arfer da:**
Trefnodd y Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghoriad gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) er mwyn ystyried adfer perthynas Plentyn E â'i fam.

Drwy gydol y cyfnod a ystyriwyd gan yr adolygwyr, y panel a mynychwyr y digwyddiad dysgu, nodwyd sawl cyfle a fethwyd i weld ac i siarad â Phlentyn E ar ei ben ei hun a thu allan i'r cartref.

Ym mis Mawrth 2021, cafwyd atgyfeiriad gan y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn rhoi adroddiad am dwrw yng nghartref mam Plentyn E. Dywedwyd i fam Plentyn E weiddi "don't hit my son". O ganlyniad, atgoffwyd y fam-gu a'r fam na ddylai Plentyn E fod yn ymweld â chyfeiriad y fam. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod rhywun wedi siarad â Phlentyn E, i ganfod ei farn am yr hyn a ddigwyddodd.

Hefyd ym mis Mawrth 2021, gwnaethpwyd adroddiad gan aelod o'r cyhoedd bod Plentyn E wedi gwneud honiadau o gam-drin corfforol a rhywiol yn erbyn aelodau o'i deulu. O ganlyniad, ymwelwyd â Phlentyn E, a siaradwyd ag ef yn ei gartref.

Ym mis Ebrill 2021, honnodd Plentyn E bod ei fam wedi ymosod arno yn gorfforol a'i fod yn llwglyd gan mai dim ond creision oedd ar gael yn y tŷ. Cafwyd trafodaeth strategaeth a arweiniodd at ymchwiliad a47 asiantaeth sengl am nad oedd gan yr Heddlu adnoddau digonol i gynnal ymchwiliad ar y cyd. Siaradwyd â'r fam-gu a'r fam cyn cynnal unrhyw drafodaeth â Phlentyn E. Unwaith eto, siaradwyd â Phlentyn E yn ei gartref.

Ym mis Gorffennaf 2021, cafwyd atgyfeiriad gan yr ysgol yn dweud bod gan Blentyn E anaf ar ei gefn a'i fod wedi dweud ei fod wedi cwympo lawr y grisiau. Eto, siaradwyd â Phlentyn E yn ei gartref. Dywedodd ei fod wedi baglu ar y grisiau olaf a brifo ei gefn ar ddolen y drws. Esboniodd y fam-gu ei bod hi wedi anghofio rhoi gwybod i'r ysgol, ac na fyddai hynny'n digwydd eto.

**Pwynt dysgu:**
Dylid gweld plant ar eu pennau eu hunain gydag ymarferwyr, i ffwrdd o rieni a gofalwyr, mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel, er mwyn i'r plentyn allu siarad am yr effaith y mae'r amgylchiadau sydd wedi achosi'r pryderon diogelu yn ei chael arno. Nid yw'n eglur a gafodd cyflenwadau bwyd y cartref eu gwirio ar ôl sylw Plentyn E am y diffyg bwyd yn y cartref.

**Arfer da:**
Trefnodd Rheolwr Achosion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) drafodaeth achos a lywiwyd gan seicoleg, a lluniwyd datganiad wedi'i lywio gan seicoleg.

Roedd ymddygiad Plentyn E, a'r iaith roedd yn ei defnyddio, yn aml yn annisgwyl i blentyn ei oed. Roedd ymdeimlad bod y gweithwyr proffesiynol efallai wedi'u dadsensiteiddio i hyn ac wedi colli golwg o'i oedran ifanc.

**Argymhelliad:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar sail profiad byw y plentyn er mwyn cynorthwyo treiddgarwch ymarferwyr, i sicrhau y caiff llais y plentyn ei glywed yn weithredol ac i gefnogi camau effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc.

**<u>Thema 4 – Gwahaniaethau proffesiynol</u>**

Yn y bôn, mae amddiffyn plant yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau. Mae hyn yn galw am ymagwedd agored ac onest, gan gydnabod y gallai hyn olygu heriau proffesiynol a'r angen i ddatrys gwahaniaethau barn proffesiynol. Mae ymchwil ac adolygiadau achos wedi pwysleisio'n gyson yr angen am gyfathrebu da rhwng asiantaethau, herio proffesiynol adeiladol a datrys gwahaniaethau barn proffesiynol yn gyflym.

Cafodd Plentyn E ei gefnogi gan Gynllun Gofal a Chymorth o 2017 i fis Mai 2021 pan roddwyd ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Ym mis Ebrill 2020, ystyriwyd lleihau'r cymorth i lefel gwasanaethau ataliol (Teuluoedd yn Gyntaf). Nid oedd y gweithwyr addysg proffesiynol yn cefnogi'r dewis hwn, a pharhaodd Plentyn E a'i deulu i gael cefnogaeth trwy Gynllun Gofal a Chymorth.

Yn gynnar yn 2021, daeth yn amlwg bod gweithwyr addysg proffesiynol a gweithwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn pryderu am y diffyg cynnydd oedd yn cael ei wneud ar y Cynllun Gofal a Chymorth a'r pryderon amddiffyn plant oedd yn dod i'r amlwg. Er y cyfathrebwyd y pryderon hyn rhwng y gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda Phlentyn E, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y pryderon wedi'u huwchgyfeirio pan oedd y gweithwyr proffesiynol yn parhau'n anfodlon â'r ymatebion a gafwyd a'r cynnydd oedd yn cael ei wneud.

**Pwynt dysgu**
Cyfrifoldeb yr holl weithwyr proffesiynol yw uwchgyfeirio pryderon os na allant ddatrys y sefyllfa ac os yw eu pryder yn parhau.

**Argymhelliad:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau am y Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol: Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol.

Pan roddwyd enw Plentyn E ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Mai 2021, cafwyd argymhelliad gan y gynhadledd y dylai'r achos symud at gynnal cyfarfod trothwy cyfreithiol. Yn dilyn trafodaeth 'Beth sy'n Bwysig', symudodd yr achos at gynnal

cyfarfod trothwy cyfreithiol. Yn y cyfarfod trothwy cyfreithiol, penderfynwyd parhau i weithio gyda Phlentyn E a'i deulu ar gynllun amddiffyn plant gan nad oedd hwnnw ond newydd ddechrau.

**Pwynt dysgu:**
Methwyd cyfle i ystyried rhoi Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar waith yn y cyfarfod trothwy cyfreithiol. Er bod y cynllun Amddiffyn Plentyn ond newydd ddechrau, roedd Plentyn E a'i deulu wedi cael eu cefnogi trwy Gynllun Gofal a Chymorth ers pedair blynedd heb gynnydd, ac roedd y pryderon ynghylch Plentyn E yn tyfu.

**Arfer da:**
Cynhaliwyd cyfarfod 'Beth sy'n Bwysig' gan y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn y cyfarfod trothwy cyfreithiol. Rhoddodd hwn y cyfle i'r holl ymarferwyr oedd yn gweithio gyda'r plentyn roi eu barn ynghylch a ddylid symud y mater ymlaen ac ystyried trothwy cyfreithiol. Lle ceir penderfyniad hollt, cynhelir cyfarfod trothwy cyfreithiol.

Er y lluniwyd cronoleg gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd ei hystyried gan y cyfarfod trothwy cyfreithiol, byddai wedi bod yn fuddiol ystyried cronoleg amlasiantaethol, yn enwedig o gofio bod gan y gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda Phlentyn E farn wahanol am yr angen i symud ymlaen at gyfarfod trothwy cyfreithiol.

**Argymhelliad:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau am y Canllawiau Cronoleg Amlasiantaethol.

Mae meddwl yn feirniadol a herio cadarn rhwng ac oddi mewn i'r asiantaethau yn allweddol i arferion diogelu effeithiol. Mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol ystyried amrywiaeth o dystiolaeth o lawer o ffynonellau a llunio damcaniaethau gweithio ystyrlon yn gyflym iawn. Mae hyn yn dibynnu ar y gweithwyr proffesiynol i feddwl yn feirniadol fel unigolion ac fel grŵp. Mae angen y cymorth a'r cyfleoedd iawn i wneud hyn yn dda.

**Argymhelliad:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried cryfhau'r canllawiau ysgrifenedig ynghylch Goruchwylio Amlasiantaethol.

**<u>Thema 5 – Systemau a Phrosesau</u>**

Cafodd Plentyn E a'i deulu eu cefnogi gan Gynllun Gofal a Chymorth am bedair blynedd cyn rhoi ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Mai 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, cefnogwyd Plentyn E a'i deulu gan Weithiwr Cymorth. Nododd y panel adolygu a'r ymarferwyr a fynychodd y Digwyddiad Dysgu y methwyd cyfleoedd i ystyried Plentyn E yn yr arena amddiffyn plant yn gynharach.

**Argymhelliad:**
Dylai Awdurdodau Lleol ystyried gwella gwaith goruchwylio gan reolwyr ac adolygu achosion lle cefnogir plant a theuluoedd gan Gynllun Gofal a Chymorth am gyfnodau estynedig.

Ym mis Mawrth 2021, nododd y panel dri atgyfeiriad pan fethwyd cyfleoedd i symud ymlaen at drafod strategaethau ac ymholiadau amddiffyn plant o dan a47. Byddai hyn wedi creu'r cyfle am fewnbwn amlasiantaethol ac yn debyg o fod wedi arwain at gynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant yn gynharach.

Mae'r atgyfeiriad cyntaf yn nodi bod Plentyn E, yn ôl y sôn, wedi ymosod yn rhywiol ar ddwy ferch. Adroddwyd bod bechgyn hŷn, a oedd yn ei fwlio, wedi'i annog i wneud hyn. Cynhaliwyd trafodaeth strategaeth gyda chanlyniad i gychwyn asesiad amddiffyn plant. Dyma'r derminoleg a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Lleol â chyfrifoldeb ar y pryd er mwyn atgyfeirio at asesiad mwy cynhwysfawr o dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Tynnodd y panel adolygu a'r ymarferwyr yn y Digwyddiad Dysgu sylw at y ffaith bod defnyddio'r derminoleg hon wedi peri dryswch ymysg ymarferwyr a dybiai fod 'asesiad amddiffyn plant' yn golygu bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflawni ymholiadau o dan a47.

Nododd yr adolygwyr, y panel a'r ymarferwyr a fynychodd y Digwyddiad Dysgu fod pryderon wedi bod ynghylch defnydd Plentyn E o iaith ac ymddygiadau wedi'u rhywioli ers ei fod yn 5 oed.

**Pwynt dysgu:**
Gall presenoldeb ymddygiad rhywiol amhriodol, yn enwedig mewn plant iau, fod yn ddangosydd eu bod yn profi, neu wedi profi, cam-drin rhywiol mewn plentyndod. Roedd hwn yn gyfle a fethwyd am gyfarfod/trafodaeth strategaeth amlasiantaethol i ystyried beth allai fod yn dylanwadu ar yr ymddygiadau hyn.

**Arfer da:**
Ym mis Hydref 2021, yn dilyn pryderon parhaus am ddefnydd Plentyn E o iaith wedi'i rhywioli, atgyfeiriodd ymarferydd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y plentyn am ymgynghoriad gyda Dyfodol Gwell Cymru (Barnardo's).

**Argymhelliad:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu protocol rhanbarthol ar gyfer ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant a phobl ifanc.

Adroddodd yr ail atgyfeiriad ym mis Mawrth 2021 bod aelod o'r cyhoedd wedi cymryd cyllell oddi wrth Blentyn E. Penderfyniad y rheolwyr mewn ymateb i'r atgyfeiriad hwn oedd parhau â'r Cynllun Gofal a Chymorth.

Adroddodd y trydydd atgyfeiriad bod Plentyn E wedi gwneud honiadau o gam-drin corfforol a rhywiol yn erbyn aelodau o'i deulu. Nododd penderfyniad y rheolwyr bod Plentyn E yn cael ei gefnogi ar Gynllun Gofal a Chymorth a bod ymholiadau a47 asiantaeth sengl yn mynd rhagddynt. Argymhellwyd ymgynghoriad gan Fy Nhîm Cymorth (Mhyst) oherwydd y pryderon cynyddol.

**Pwynt dysgu:**
Os bydd pryderon ynghylch niwed sylweddol yn dod i'r amlwg neu'n crynhoi pan fydd plentyn yn destun Cynllun Gofal a Chymorth, rhaid ystyried cynnal ymholiadau, gan ddechrau gyda thrafodaeth/cyfarfod strategaeth. Yn y cyfarfod hwn, dylid asesu'r cynllun sydd ar waith ac archwilio'r rhesymau pam nad yw'n cadw'r plentyn yn ddiogel rhag niwed sylweddol.

Cafodd y gynhadledd adolygu amddiffyn plant ei hail-drefnu a'i chynnal yn ystod gwyliau haf yr ysgolion. O ganlyniad, nid oedd cynrychiolydd Addysg yn bresennol yn y gynhadledd adolygu amddiffyn plant.

**Argymhelliad:**
Dylai Awdurdodau Lleol ystyried sut i gynrychioli barn yr adran addysg a'r ysgol mewn prosesau amddiffyn plant sy'n digwydd yn ystod gwyliau ysgol.

Methwyd cyfleoedd pellach i symud at drafodaeth strategaeth ym mis Medi 2021. Cyflwynwyd atgyfeiriad gan yr adran Addysg yn nodi pryderon ynghylch iaith ac ymddygiad wedi'u rhywioli Plentyn E. Penderfyniad y rheolwyr wrth ymateb i'r atgyfeiriad oedd y dylai'r cynllun amddiffyn plant barhau ac y dylid trefnu ymgynghoriad 'Fy Nhîm Cymorth' (MyST). Nododd ymateb y rheolwyr hefyd y dylai Rheolwr y Tîm ddod i'r cyfarfod Grŵp Craidd nesaf i gasglu barn ynghylch symud at gyfarfod 'Beth sy'n Bwysig'. Cafwyd ail atgyfeiriad oddi wrth yr adran Addysg yn nodi bod Plentyn E yn wlyb diferol, wedi iddo fod yn reidio ei feic yn y glaw cyn mynd i'r ysgol. Dywedodd y fam-gu nad oedd hi'n gallu ei atal rhag mynd allan. Cofnodwyd yr un ymateb gan reolwyr i'r atgyfeiriad hwn, heb symud ymlaen at drafodaeth strategaeth.

**Pwynt dysgu:**
Dylid cynnal trafodaethau strategaeth amlasiantaethol bob tro yr amheuir bod plentyn efallai mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol.

Er y cyflwynwyd nifer fawr o atgyfeiriadau, ni chafodd rhai digwyddiadau a gwybodaeth eu hatgyfeirio'n ffurfiol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan yr adran Addysg. Yn hytrach cafodd y digwyddiadau hyn eu hadrodd drwy e-bost rhwng gweithwyr proffesiynol. Ystyriodd yr ymarferwyr yn y Digwyddiad Dysgu'r gwahaniaethau rhwng rhannu gwybodaeth a chyflwyno atgyfeiriad ar gyfer plentyn sy'n cael cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a chydnabuont bwysigrwydd gwneud hynny, waeth beth oedd yr ymateb i atgyfeiriadau blaenorol.

**Pwynt dysgu:**
Mae'r ddyletswydd statudol i adrodd pryderon ynghylch plentyn sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, yn berthnasol p'un a yw'r plentyn yn cael cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ai peidio.

Ym mis Medi a mis Hydref 2021, cafwyd adroddiadau am Blentyn E yn dweud ei fod eisiau lladd ei hun. Dywedodd mam Plentyn E hefyd ei fod wedi ceisio brifo ei hun yn fwriadol yn y gymuned. Pan aeth ei Weithiwr Cymdeithasol i'w weld, dywedodd Plentyn E ei fod eisiau bod gyda'i dad. Yr ymateb oedd cwblhau cynllun diogelwch gyda'r fam-gu a mynd ar ôl yr atgyfeiriad Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Llesiant Emosiynol Plant (SPACE).

**Pwynt dysgu:**
Y Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Llesiant Emosiynol Plant (SPACE-Wellbeing) yw'r ffordd arferol o gyrraedd gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan gynnwys CAMHS arbenigol. Lle bo gan weithwyr proffesiynol bryderon brys

ynghylch iechyd meddwl a llesiant emosiynol plentyn, dylent ffonio llinell gyswllt brys CAMHS.

**<u>Effaith y pandemig Covid-19</u>**

Ar ddechrau'r pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, roedd sefydliadau yn gorfod ymateb ac addasu o hyd i ganllawiau'r llywodraeth, a oedd yn newid, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n dal i gael eu darparu. Nid oedd dyletswyddau diogelu'r sefydliadau partner statudol wedi newid yn ystod Covid-19. Sefydlodd Awdurdodau Lleol a phartneriaid diogelu brosesau clir ar gyfer asesu risg, blaenoriaethu achosion a gweithredu arferion Covid diogel.

Yng Ngwent, cyhoeddodd Penaethiaid y Gwasanaethau Plant ganllawiau rhanbarthol yn nodi'r trefniadau gweithredol a lywiwyd gan ganllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ymarferol, golygai hyn fod ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u blaenoriaethu i blant lle roedd pryderon diogelu neu yr oedd angen ymweliadau statudol arnynt oherwydd bod eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant, neu eu bod yn blant oedd yn derbyn gofal, yn amodol ar asesiad risg. Yn achos Plentyn E, golygai hyn fod cyfnod cyn rhoi ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Mai 2021 pan oedd ymweliadau a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol gan fwyaf.

Roedd mwy o bwysau ar fam-gu Plentyn E oherwydd yr amharu ar arferion rheolaidd. Roedd ysgolion ar gau am gyfnodau yn ystod y pandemig, a golygai canllawiau Llywodraeth Cymru na chynigiwyd lle i Blentyn E yn un o'r Hybiau a oedd wedi'u neilltuo ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed (wedi'u diffinio fel plant ar y gofrestr amddiffyn plant neu blant sy'n derbyn gofal). Pan newidiodd canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch dysgwyr agored i niwed, aethpwyd yn ôl i drafod rhoi lle i Blentyn E mewn Hyb, ond ni symudodd y drafodaeth ymlaen.

**Arfer da:**
Parhaodd yr ysgol i gysylltu'n rheolaidd â mam-gu Plentyn E yn ystod y cyfnodau pan oedd yr ysgol ar gau. Pan nad oedd Plentyn E yn defnyddio'r dulliau dysgu ar-lein ac roedd hi'n anodd cysylltu â'r fam-gu dros y ffôn, trefnwyd ymweliad gan y Gwasanaeth Lles Addysg.

I waethygu'r sefyllfa, nid oedd mam-gu Plentyn E yn hyderus i ddefnyddio technoleg.

Ceisiodd Rheolwr Achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sicrhau caniatâd y rheolwyr i gynnal apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda Phlentyn E oherwydd y diffyg ymgysylltiad/cynnydd yn yr apwyntiadau rhithiol.

Roedd iechyd mam-gu Plentyn E yn wael ac fe'i hystyriwyd yn agored iawn i Covid 19. Roedd hon yn ystyriaeth ychwanegol i'r gweithwyr proffesiynol yn ystod y cyfnodau pan llaciwyd y cyfyngiadau o ran cyswllt wyneb yn wyneb.

## Gwella systemau ac arferion

**Gwelliannau asiantaethol wrth ymarfer:**

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at asesiadau o dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel 'asesiad amddiffyn plentyn' mwyach. Yr enw ar yr asesiadau hyn bellach yw 'asesiad cynhwysfawr'.

Fel rhan o'r broses ddysgu barhaus, mae'r Awdurdod Lleol wrthi'n cynnal adolygiad annibynnol o'r graddau mae'n cadw at weithdrefnau diogelu statudol gan gynnwys cynnal adolygiad archwilio mewnol o'r arferion presennol.

**Argymhelliad 1:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar brofiad byw'r plentyn er mwyn cynorthwyo treiddgarwch ymarferwyr, i sicrhau y caiff llais y plentyn ei glywed yn weithredol ac i gefnogi camau effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 2:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau am y Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol: Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol.

**Argymhelliad 3:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau am y Canllawiau Cronoleg Amlasiantaethol.

**Argymhelliad 4:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried cryfhau'r canllawiau ysgrifenedig ynghylch Goruchwylio Amlasiantaethol.

**Argymhelliad 5:**
Dylai Awdurdodau Lleol ystyried gwella gwaith goruchwylio gan reolwyr ac adolygu achosion lle cefnogir plant a theuluoedd gan Gynllun Gofal a Chymorth am gyfnodau estynedig.

**Argymhelliad 6:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu protocol rhanbarthol ar gyfer ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 7:**
Dylai Awdurdodau Lleol ystyried sut i gynrychioli barn yr adran addysg ac ysgolion mewn prosesau amddiffyn plant sy'n digwydd yn ystod gwyliau ysgol.

## Datganiad yr Adolygydd (Adolygwyr)

| **ADOLYGYDD 1** | | **ADOLYGYDD 2** | |
|---|---|---|---|
| **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad Cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | | **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad Cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | |
| Rwyf yn datgan fy mod i, cyn imi gymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:<br>• Heb ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol am yr achos<br>• Nid oes gen i reolaeth llinell uniongyrchol dros yr ymarferydd/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Yn meddu ar y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol a gydnabyddir i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn ddadansoddiad a gwerthusiad manwl o'r materion fel y'u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. | | Rwyf yn datgan fy mod i, cyn imi gymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:<br>• Heb ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol am yr achos<br>• Nid oes gen i reolaeth llinell uniongyrchol dros yr ymarferydd/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Yn meddu ar y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol a gydnabyddir i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn ddadansoddiad a gwerthusiad manwl o'r materion fel y'u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. | |
| **Adolygydd 1**<br>*(Llofnod)* | | **Adolygydd 2**<br>*(Llofnod)* | |
| **Enw**<br>*(Printiwch)* | Jacalyn Richards | **Enw**<br>*(Printiwch)* | Guy Browett |
| **Dyddiad** | 17/05/2023 | **Dyddiad** | 17/05/2023 |
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* | | | |
| **Enw**<br>*(Printiwch)* | Gareth Jenkins | | |

**Dyddiad** 17/05/2023

## Y broses Adolygu Ymarfer Plant

Ar 16 Chwefror 2022, hysbysodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru Lywodraeth Cymru ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig mewn perthynas â phlentyn

**Adolygydd** Jacalyn Richards, Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

**Adolygydd** Guy Browett, Dirprwy Bennaeth Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf Gwent, Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EF

**Cadeirydd y Panel Adolygu** Gareth Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Heddlu Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Phoenix

Daeth y panel ynghyd i adolygu'r wybodaeth amlasiantaethol a rhoi dadansoddiad er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r adroddiad.

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ym mis Medi 2022. Roedd yr asiantaethau canlynol yn bresennol:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Heddlu Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Phoenix

Hysbyswyd aelodau perthnasol o'r teulu bod yr adolygiad yn cael ei gynnal a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r Adolygwyr.

☐ Teulu'n gwrthod cymryd rhan

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn y wybodaeth ………………………..

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol …………………………

Dyddiad dosbarthu i'r arolygiaethau/ Arweinwyr Polisi perthnasol ………………………….

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| AGIC | ☐ | ☐ | |
| Cwnstabliaeth EF | ☐ | ☐ | |
| Gwasanaethau Prawf EF | ☐ | ☐ | |

*Sail resymegol galw Cyfarfod Beth sy'n Bwysig

Mewn amgylchiadau llai brys, mae'r ymarferydd yn gwneud argymhelliad i geisio cyngor cyfreithiol a dylai wedyn drefnu trafodaeth gyda'i reolwr tîm. Bydd y rheolwr tîm yn adolygu'r cynllun amddiffyn plant, yn ystyried a oes modd ei gryfhau ac yn gofyn am gyfarfod Beth sy'n Bwysig amlasiantaethol dan gadeiryddiaeth y rheolwr gwasanaeth. Y rheolwr gwasanaeth fydd yn gyfrifol am gofnodi'r cyfarfod hwnnw a sicrhau y caiff y cofnodion eu rhoi ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Diben y cyfarfod amlasiantaethol hwn yw gweithio gydag asiantaethau partner i nodi'n fanwl beth sy'n bwysig i'r plentyn, cryfderau'r teulu, diffinio meysydd risg a rhwystrau rhag newid, ystyried adnoddau a rennir ar gyfer rheoli risg a phennu a fyddai cynnig cymorth dwys neu gomisiynu asesiad neu ymyrraeth arbenigol yn gallu effeithio ar newid neu leihau risg.

Os, yn ystod y cyfarfod hwnnw, y cytunir i geisio gwneud mwy o waith, bydd yr achos yn parhau i gael ei reoli gan gynllun gofal a chymorth amddiffyn plant. Os, yn ystod y cyfarfod hwnnw, y cytunir na ellir cryfhau'r cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant ymhellach, ac nad oes llawer o ysgogiad i newid, bydd y rheolwr gwasanaeth yn cytuno y dylid cyflwyno'r achos mewn cyfarfod cyfreithiol a bydd yr ymarferydd yn cysylltu â chymorth busnes i drefnu'r drafodaeth drothwy.

Rhaid i'r ymarferydd ystyried yr angen i weithio'n agored a thryloyw gyda theuluoedd ac i leihau cymaint â phosibl unrhyw rwystrau sydd i weithio cynhyrchiol ar y cyd. Bydd yr ymarferydd felly yn cael sgwrs gyda'r plentyn (os yw ei oedran a'i ddealltwriaeth yn briodol) a'r rhieni i esbonio'r penderfyniad i gynnal cyfarfod trothwy a chanlyniadau posibl y cyfarfod hwnnw.